YSTADEGAU, DOGFENNU

# Tipio anghyfreithion a gofnodwyd gan awdurdodau lleol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024

Crynodeb o achosion o dipio anghyfreithlon, camau gorfodi a chanlyniadau erlyn ar gyfer Ebrill 2023 i Mawrth 2024. Nid yw'r ystadegau yn cynnwys achosion o dipio ar dir preifat.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 28 Tachwedd 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Prif bwyntiau**

**Troednodiadau**

**Gwybodaeth gefndir**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau

- Cafodd 42,171 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon eu cofnodi yng Nghymru. Mae hyn 6% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, ac 20% yn fwy na 2018-19.
- Roedd newid blynyddol yn nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn amrywio ledled Cymru. Adroddodd 10 awdurdod lleol ostyngiad a nododd 12 awdurdod lleol gynnydd.
- Gwelwyd y cynnydd blynyddol mwyaf yng Ngwynedd (95%), Ynys Môn (55%) a Sir Ddinbych (46%). Yn ôl yr awdurdodau lleol, roedd hyn yn rhannol oherwydd gwell mecanweithiau adrodd.
- Gwelwyd y gostyngiadau blynyddol mwyaf mewn digwyddiadau tipio anghyfreithlon yng Ngheredigion (65%), Bro Morgannwg (52%), Castell-nedd Port Talbot a Phowys (26% ill dau).
- Roedd 71% o'r digwyddiadau'n ymwneud â gwastraff cartref (bag du neu wastraff cartref arall).
- Amcangyfrifwyd bod clirio tipio anghyfreithlon yng Nghymru yn costio £1.94 miliwn. [**troednodyn 1**]
- Cafodd 25,454 o gamau gorfodi eu cymryd yng Nghymru. Mae hyn 7% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. [**troednodyn 2**]
- O'r 102 canlyniad i erlyniad, fe wnaeth 69% arwain at ddirwy.

Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd:

- gwelliannau mewn prosesau cofnodi data a chanllawiau
- effaith y pandemig coronafirws (COVID-19). Nid yw'n glir pa effeithiau sy'n rhai tymor byr a pha rai allai barhau dros y tymor hir, sy'n gwneud cymariaethau rhwng blynyddoedd yn anodd

Ceir gwybodaeth bellach yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Troednodiadau

[1] Amcangyfrifir bod costau clirio yn seiliedig ar nifer y digwyddiadau a dorrwyd i lawr yn ôl maint. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar gyfer pob digwyddiad. Yn 2023-24, darparwyd gwybodaeth am faint ar gyfer 93% o ddigwyddiadau.

[2] Oherwydd COVID-19 gohiriwyd llawer o achosion cyfreithiol, gan arwain at gynnydd mawr mewn camau gorfodi a adroddwyd yn 2021-22. Felly mae disgwyl gostyngiad mewn camau gorfodi yn 2022-23 a 2023-24.

## Gwybodaeth gefndir

Mae'r ystadegau yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol i'r gronfa ddata 'Waste Data Flow'. Er y cofnodir rhai achosion, nid yw'r ystadegau yma yn cynnwys pob achos o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, ac ni chofnodir pob digwydd tipio anghyfreithlon gydag awdurdod lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Stuart Neil
E-bost: **ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tipio-anghyfreithion-gofnodwyd-gan-awdurdodau-lleol-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.